

Uned 2

Pwy ydy Pwy a Hoffi

Adolygu ac Ymestyn: Sgyrsiau Cwrs Sabothol

Tiwtor: Helo, bawb.
Pawb: Helo.
Tiwtor: Sut rydych chi heddiw?
Pawb: Iawn, diolch.
Tiwtor: Ble rwyd ti'n byw, Dafydd?
Dafydd: Rydw i'n byw yn Llandeilo. Ble rwyd ti'n byw?
Tiwtor: Rydw i'n byw yng Nghaerfyrddin.
Ble rwyd ti'n dysgu, Dafydd?
Dafydd: Rydw i'n dysgu yn Ysgol y Fedwen.
Tiwtor: Diolch.

Tiwtor: Prynhawn da, bawb.
Mat, ble rwyd ti'n byw?
Mat: Rydw i'n byw yng Nghaerdydd.
Tiwtor: Ble rwyd ti'n gweithio?
Mat: Rydw i'n gweithio yn Ysgol y Fedwen. Rydw i'n dysgu
Blwyddyn 2.
Tiwtor: Diolch.

Sut rydych chi heddiw? > Sut dych chi heddiw?

Paratowch sgyrsiau newydd.

Uned 2

Dril 1 O ble?

O ble rydych chi'n dod?		O	Hwlfordd.
O ble rydych chi'n dod yn wreiddiol?	Rydw i'n dod	o	Aberaeron. Gaerdydd.
O ble rwy't ti'n dod?		O	Ddolgellau.
O ble rwy't ti'n dod yn wreiddiol?	Rydw i'n dod	o	Loegr. Gaerfyrddin.

Gofynnwch i 4 person yn y dosbarth.

Dril 2 Siarad am berson arall

Mae Ceri yn	dod o Abertawe.
Mae e'n	dod o Lanelli.
Mae hi'n	dod o Gaerdydd.

Cyflwynwch 2 o'r bobl i'r dosbarth.

Dyma Ffred Morris. Mae e'n byw yn Llan. Mae e'n gweithio yn Ysgol y Wern, yn Lanelli. Mae e'n dysgu Blwyddyn 1. **Mae e'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol.**

Dyma Helen Jones. Mae hi'n byw yn Aberaeron **ond mae hi'n dod o Ffwrnais yn wreiddiol.** Mae hi'n gweithio yn Ysgol y Parc, Aberaeron. Mae hi'n athrawes Blwyddyn 5.

O ble rydych chi'n dod > O ble dych chi'n dod?
O ble rydych chi'n dod yn wreiddiol > O ble dych chi'n dod yn wreiddiol?
O ble rwy't ti'n dod? > O ble wyt ti'n dod?

→ Gweithgaredd 1a a 2

→ Gweithgaredd 1b

→ Gweithgaredd 3 a 4

Uned 2

Dril 3 Hoffi?

Beth rydych chi'n hoffi?	Rydw i'n hoffi sglodion.
Beth rwyd ti'n hoffi?	Rydw i'n hoffi <i>Eastenders</i> .
	Rydw i'n hoffi sudd oren.
Beth dydych chi ddim yn hoffi?	Dydw i ddim yn hoffi cyrri twym.
Beth dwyt ti ddim yn hoffi?	Dydw i ddim yn hoffi rhaglenni realiti.
	Dydw i ddim yn hoffi coffi.

Gofynnwch i 4 berson yn y dosbarth.

Dril 4 Siarad am berson arall

Beth mae Chris yn hoffi?	Mae Chris yn hoffi sglodion.
	Mae e'n hoffi <i>Eastenders</i> .
	Mae hi'n hoffi sudd oren.
Beth dydy Chris ddim yn hoffi?	Dydy Chris ddim yn hoffi cyrri twym.
	Dydy e ddim yn hoffi rhaglenni realiti.
	Dydy hi ddim yn hoffi coffi.

Cyflwynwch 2 berson i'r dosbarth.

Dyma Ffred Morris. Mae e'n byw yn Llan. Mae e'n gweithio yn Ysgol y Wern, yn Llanelli. Mae e'n dysgu Blwyddyn 1. Mae e'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol. **Mae e'n hoffi cyrri, pêl-droed ac mae e'n hoffi *The Voice* ar y teledu.**

Dyma Helen Jones. Mae hi'n byw yn Aberaeron ond mae hi'n dod o Ffwrnais yn wreiddiol. Mae hi'n gweithio yn Ysgol y Parc, Aberaeron. Mae hi'n athrawes Blwyddyn 5. **Mae hi'n hoffi pysgod a sglodion, a rygbi.**

Beth rydych chi'n hoffi? > Beth dych chi'n hoffi?
Beth rwyd ti'n hoffi? > Beth wyt ti'n hoffi?

Beth dydych chi ddim yn hoffi > Beth dych chi ddim yn hoffi?

→ Gweithgaredd 5

Uned 2

Dril 5 Hoffi bwyta / yfed / gwyllo / darllen / gwneud ... ?

Beth rydych chi'n hoffi fwyta?	Rydw i'n hoffi bwyta ...
Beth rwyt ti'n hoffi yfed?	yfed ...
wyllo?	gwyllo ...
ddarllen?	darllen ...
wneud?	cadw'n heini.
	coginio.
	dawnsio.
	gwyllo ffilmiau.
	mynd allan gyda ffrindiau.
Beth dydych chi ddim yn hoffi fwyta?	Dydw i ddim yn hoffi (bwyta) salad.
Beth dwyt ti ddim yn hoffi yfed?	Dydw i ddim yn hoffi (yfed) llaeth.
wyllo?	Dydw i ddim yn hoffi gwyllo ...
	Dydw i ddim yn hoffi darllen ...
ddarllen?	Dydw i ddim yn hoffi smwddio.
wneud?	

Beth rydych chi'n hoffi fwyta / yfed?
> Beth dych chi'n hoffi bwyta / yfed?

Beth rwyt ti'n hoffi fwyta / yfed?
> Beth wyt ti'n hoffi bwyta / yfed??

Beth dydych chi ddim yn hoffi fwyta / yfed?
> Beth dych chi ddim yn hoffi bwyta / yfed?

Sgwrs

- A: Prynhawn da. Sut mae?
B: Iawn, diolch.
A: Beth rwyt ti'n hoffi ar y teledu?
B: Rydw i'n hoffi gwyllo *The X Factor*. Wyt ti'n hoffi canu?
A: Nac ydw. Dydw i ddim yn hoffi canu!
B: Beth rwyt ti'n hoffi ar y teledu, 'te?
A: Dydw i ddim yn hoffi gwyllo'r teledu. Rydw i'n hoffi cadw'n heini.

Uned 2

Nawr, gweithiwch mewn parau i baratoi sgysiau newydd.

→ Gweithgaredd 6a

Sgwrs - ffrindiau newydd

Sam: Noswaith dda.
Alex: Noswaith dda. Sut rwyd ti heno?
Sam: Da iawn, diolch. A ti?
Alex: Rydw i'n iawn diolch.
Sam: Beth rwyd ti'n hoffi wneud?
Alex: Wel, rydw i'n hoffi mynd i'r sinema ... ac rydw i'n hoffi bwyta allan ...
ac rydw i'n hoffi gwyllo pêl-droed.
Sam: Gwyllo pêl-droed!! Dim diolch! Dydw i ddim yn hoffi gwyllo pêl-droed.
Beth **arall** rwyd ti'n hoffi wneud?
Alex: Rydw i'n hoffi dawnsio.
Sam: Dawnsio!! Dim diolch! Dydw i ddim yn hoffi dawnsio. Beth **arall** rwyd
ti'n hoffi wneud?
Alex: Rydw i'n hoffi cadw'n heini.
Sam: Cadw'n heini!! Dim diolch! Dydw i ddim yn hoffi cadw'n heini.
Alex: Beth rwyd ti'n hoffi wneud, Sam?
Sam: Wel, rydw i'n hoffi chwarae ar yr Xbox.
Alex: Hwyl fawr, Sam!

Nawr, gweithiwch mewn parau i baratoi sgysiau newydd.

Uned 2

Dril 6 Siarad am rywun arall

Beth mae Chris yn hoffi fwyta?	Mae Chris yn hoffi bwyta sglodion.
Beth mae e'n hoffi yfed?	Mae e'n hoffi yfed llaeth.
Beth mae hi'n hoffi wneud?	Mae hi'n hoffi cadw'n heini.
Beth dydy Chris ddim yn hoffi fwyta?	Dydy Chris ddim yn hoffi bwyta cyrri twym.
Beth dydy e ddim yn hoffi yfed?	Dydy e ddim yn hoffi yfed coffi.
Beth dydy hi ddim yn hoffi wneud?	Dydy hi ddim yn hoffi chwarae pêl-droed.

Dril 7 hoff

Beth ydy'ch hoff fwyd chi?	Cinio dydd Sul.
Beth ydy dy hoff fwyd di?	Cinio dydd Sul ydy fy hoff fwyd i. Fy hoff fwyd i ydy <i>goulash</i> .
Beth ydy'ch hoff ddiod chi?	Te.
Beth ydy dy hoff ddiod di?	Te ydy fy hoff ddiod i. Fy hoff ddiod i ydy te.
Beth ydy'ch hoff raglen chi?	<i>Eastenders</i> .
Beth ydy dy hoff raglen di?	<i>Eastenders</i> ydy fy hoff raglen i. Fy hoff raglen i ydy <i>Eastenders</i> .
Beth ydy'ch hoff liw chi?	...
Beth ydy dy hoff gân di?	... ydy fy hoff ... i.
lyfr	Fy hoff ... i ydy
ffilm	

Gofynnwch i 4 person yn y dosbarth.

→ Gweithgaredd 6b a 7

→ Gweithgaredd 8

Uned 2

Sgwrs - ar raglen deledu

Cyflwynydd: Noswaith dda. Croeso i **Canu ... Canu ... Canu.**
... a ... pwy wyt ti?
Emma: Emma Smith ydw i.
Cyflwynydd: Ble rwyd ti'n byw?
Emma: Rydw i'n byw yn Aberdâr.
Cyflwynydd: O ble rwyd ti'n dod yn wreiddiol?
Emma: Rydw i'n dod o Lanelli.
Cyflwynydd: Ble rwyd ti'n gweithio?
Emma: Rydw i'n gweithio yn Llanelli. Rydw i'n athrawes yn Ysgol y Wern.
Cyflwynydd: Gwych! Beth rwyd ti'n hoffi wneud?
Emma: Rydw i'n hoffi cerdded, darllen, garddio, canu a mynd allan i fwyta gyda ffrindiau.
Cyflwynydd: Beth ydy dy hoff fwyd di?
Emma: Stêc a sgloodion a sudd frwythau.
Cyflwynydd: Beth ydy dy hoff sudd di?
Emma: Sudd oren ffres.
Cyflwynydd: Hyfryd.
Emma: Beth ydy dy hoff raglen di ar y teledu?
Cyflwynydd: **Canu ... Canu ... Canu**, wrth gwrs.
Emma: Gwych ...

Paratowch sgwrs debyg.

Uned 2

Dril 8 Rhif ffôn ac enw ar Twitter

Beth ydy'ch rhif ffôn chi?	tri ... saith ... pedwar ... saith ... tri ... un (374731)
Beth ydy dy rif ffôn di?	Fy rhif ffôn ydy tri ... saith ... pedwar ... saith ... tri ... un (374731).
Beth ydy'ch enw chi ar Twitter?	CymroCoch.
Beth ydy dy enw di ar Twitter?	Fy enw i ydy Wiliam CymroCoch ar Twitter. CymroCoch ydy fy enw i.

Sgwrs

Sam:	Helo.
Chris:	Helo.
Sam:	Beth ydy dy rif ffôn di?
Chris:	Pardwn?
Sam:	Beth ydy dy rif ffôn di?
Chris:	765 399
Sam:	764 399
Chris:	Na - 765 399
Sam:	Diolch. Beth ydy dy enw di ar Twitter?
Chris:	Christopher Wallis Dunoon McBride Stephens.
Sam:	Pardwn?

Cyfrif

1. un
2. dau
3. tri
4. pedwar
5. pump
6. chwech
7. saith
8. wyth
9. naw
10. deg

→ Gweithgaredd 9-11

Uned 2

Geirfa

allan = mas	<i>out</i>
arall	<i>else, other</i>
bwyd, bwydydd (g)	<i>food, foods</i>
bwyta	<i>to eat</i>
cadw'n heini	<i>to keep fit</i>
cân, caneuon (b)	<i>song, songs</i>
canu	<i>to sing</i>
cyflwynydd (g)	<i>presenter</i>
cyfrif	<i>to count</i>
darllen	<i>to read</i>
dawnsio	<i>to dance</i>
digon (o)	<i>plenty, enough</i>
dim diolch	<i>no thank you</i>
diod, diodydd (b)	<i>drink, drinks</i>
dod	<i>to come</i>
garddio	<i>to do the gardening</i>
(g)onest	<i>honest</i>
gwneud	<i>to do, make</i>
gwyllo	<i>to watch</i>
heno	<i>tonight</i>
hoff	<i>favourite</i>
hoffi	<i>to like</i>
Hwlfordd	<i>Haverfordwest</i>
hyfryd	<i>lovely</i>
lliw, lliwiau (g)	<i>colour</i>
Lloegr	<i>England</i>

llyfr, llyfrau (g)	<i>book, books</i>
mas = allan	<i>out</i>
mynd	<i>to go</i>
pêl-droed (f)	<i>football</i>
rhaglen, rhaglenni (b)	<i>progamme, programmes</i>
rhif, rhifau (g)	<i>number</i>
smwddio	<i>to iron</i>
teledu (g)	<i>television</i>
twym	<i>hot</i>
yfed	<i>to drink</i>
yn wreiddiol	<i>originally</i>

cwrw (g)	<i>beer</i>
cyrri (g)	<i>curry</i>
dŵr	<i>water</i>
llaeth	<i>milk</i>
pysgodyn, pysgod (g)	<i>fish</i>
sglodion	<i>chips</i>
stêc (g / b)	<i>steak</i>
sudd	<i>juice</i>

Uned 2

Gramadeg

O (from)

When a place name beginning in **P, T, C, B, D, G, M, Ll, Rh** follows the word **o** (*from*), the first letter will change as follows

Rydw i'n dod ... Mae John yn dod ... Rydyn ni'n dod ... Maen nhw'n dod ...		Y TREIGLAD MEDDAL (The soft mutation)	
o	Dreforys	T > D	(Treforys > Dreforys)
o	Gaerdydd	C > G	(Caerdydd > Gaerdydd)
o	Bontypridd	P > B	(Pontypridd > Bontypridd)
o	Ddolgellau	D > Dd	(Dolgellau > Ddolgellau)
o	Wynedd	G > -	(Gwynedd > Wynedd)
o	Fangor	B > F	(Bangor > Fangor)
o	Landeilo	Ll > L	(Llandeilo > Landeilo)
o	Ruthun	Rh > R	(Rhuthun > Ruthun)
o	Forgannwg	M > F	(Morgannwg > Forgannwg)

This change is called a *soft mutation* - **treigladau meddal**. You have already come across it in Uned 1 - when directly addressing a group of people:

Helo, blant.

Bore da, bawb.

The soft mutation also occurs after:

Hoff

Beth ydy'ch hoff fwyd chi?

Beth ydy dy hoff ddiod di?

Pwy ydy dy hoff fand di?

Beth rwyf ti'n hoffi 'ei' fwyta?

This is how the phrase should be written in full. The **'ei'** - 'it' - causes a treigladau meddal causing the 'm' to mutate. You may see the full form in written Welsh or hear it in formal Welsh.

Negative forms

You have learnt a number of negative forms in this unit:

Positive	Negative
Rydw i'n hoffi ...	Dydw i ddim yn hoffi ...
Rydw i'n byw yn ...	Dydw i ddim yn byw yn ...
Rydw i'n dod o ...	Dydw i ddim yn dod o ...
Mae Sam yn hoffi ...	Dydy Sam ddim yn hoffi ...
Mae e'n byw yn ...	Dydy e ddim yn byw yn ...
Mae hi'n dod o ...	Dydy hi ddim yn dod o ...

Beth ...?

Notice these questions:

Beth mae John ...? + verb

Beth mae John yn hoffi?

Uned 2

Beth ydy ...? + noun or pronoun

Beth ydy dy hoff fwyd di?

Beth ydy'ch rhif ffôn chi?

If you wanted to ask the tutor for a specific Welsh word you could ask:

Beth ydy ... yn Gymraeg?

diod / yfed

Take care if you want to refer to *drink* in Welsh:

diod = a drink

Beth ydy dy hoff **ddiod** di?

Te ydy fy hoff **ddiod** i.

yfed = to drink

Rydw i'n hoffi **yfed** te.

Gweithgareddau

1 Llenwch y bylchau'n gywir.

1. Rydw i'n dod o (Bangor)
2. Rydw i'n dod o (Caerdydd) yn wreiddiol.
3. Mae Manon yn dod o (Porthcawl).

4. Mae Chris yn dod o (Tonypandy).

5. Mae Fabio yn dod o (Portiwgal).

6. Mae Lena yn dod o (Gwynedd).

2 Trowch y brawddegau a'r cwestiynau'n negyddol:

1. Rydw i'n hoffi sglodion.
2. Rydw i'n hoffi seidr.
3. Rydw i'n hoffi cyrri twym.
4. Mae Chris yn hoffi sglodion.
5. Mae e'n hoffi *Eastenders*.
6. Mae hi'n hoffi canu.

Uned 2

7. Mae Alys yn hoffi mynd allan i fwyta.

8. Beth rydych chi'n hoffi?

9. Beth rwyd ti'n hoffi?

10. Beth mae John yn hoffi?

3 Ysgrifennwch 10 o'r geiriau yma yn y bylchau.

bwyd	dydy	wyt	O	da
plant	fwyd	rif ffôn	blant	
mae	ydy	gweithio		
rydych	yfed	dda		

- ble rwyd ti'n dod?
- Beth ydy dy hoff di?
- Beth ydy dy di?
- Beth Emily yn hoffi wneud?

5. Beth eich rhif ffôn chi?

6. Beth Ann ddim yn hoffi fwyta?

7. Mae John yn yn Ysgol y Graig.

8. Bore

9. Noswaith

10. O ble chi'n dod?

4 Ysgrifennwch.

Ysgrifennwch baragraff i gyflwyno'ch hun.

Uned 2

Atodiad

Amser coffi

Dewiswch 2 o'r dosbarth i wneud y coffi.
Siaradwch Gymraeg!

Siaradwch â pherson dydych chi ddim yn adnabod yn dda, e.e.

